

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MEHEFIN/GORFFENNAF/AWST 2017**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN GORFFENNAF 2017 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2017/18**

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

**5. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU**

Derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (copi'n amgaeëdig).

**6. ADRODDIAD EGWYL MIS AWST**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) ar gamau a gymerwyd dan awdurdod dirprwyedig ers cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor.

**7. CYFOETH NATURIOL CYMRU – WARDENIAID LLIFOGYDD**

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chynnig i gyfarfod â Chynghorwyr y Dref i drafod rôl Wardeniaid Llifogydd y dref a'r Cynllun Llifogydd Cymunedol, a hefyd i hysbysu o'r ymarfer llifogydd aml-asiantaeth sy'n digwydd yn y Rhyl ym mis Hydref ar gyfer ardal dwyrain y Rhyl.

**[D.S. mae nifer o aelodau wedi gwirfoddoli i fod yn Wardeniaid Llifogydd yn y gorffennol ac mae'r Cyngor Tref wedi cyfarwyddo bod cyfleusterau'r Cyngor Tref ar gael ar gyfer hyfforddiant ac ati, er bod y Cyngor wedi cadarhau na ddylai'r Cyngor Tref gael ei adnabod fel pwynt cywllt mewn argyfwng ar gyfer ymholiadau ynglŷn â llifogydd i osgoi oedi yn ystod achosion o llifogydd.]**

## **8. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR: SPORTED NORTH WALES**

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Ms Debra Barker, Swyddog Datblygu Prosiect (Gogledd Cymru), yn cyflwyno ei hun ac i benderfynu ar gais llafar diweddarach i gael annerch y Cyngor ar waith y prosiect.

## **9. EITEMAU GAN YR AELODAU**

- Y Cyngorydd B. Jones – Trafod y rhaglen Cynnal a Chadw Llochesi Bws.
- Y Cyngorydd B. Mellor – Hysbysu'r aelodau ynglŷn â mater parcio yn Garnett Avenue, y Rhyl.
- Y Cyngorydd Mrs J. Chamberlain-Jones – Gofyn am ganiatâd i Banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych ddefnyddio Siambr y Cyngor Tref.
- Y Cyngorydd T. Thomas – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i roi gwahoddiad i Ms Sue Nash, Rheolwr newydd y White Rose Centre, i annerch cyfarfod o'r Cyngor Tref yn y dyfodol agos.

## **10. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## **11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## **12. PWYLLGOR STAFF: SEFYDLIAD**

Derbyn adroddiad llafar Cadeirydd y Pwyllgor a Chlerc y Dref.

## **13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i Gofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

## **14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.